**Eitem:** 17

**Teitl:** Adolygu polisïau a gweithdrefnau

| | |
|---|---|
| **Gweithredu / Action required** | Cymmeradwyaeth |
| **Amseru / Timing** | Brys |
| **Argymhelliad / Recommendation** | Rydym yn argymell bod y Bwrdd yn:<br><br>1. Nodi'r rhesymeg dros adolygu ein fframwaith llywodraethu sy'n datblygu a chytuno ar yr angen am gymorth allanol i adolygu ein polisïau a'n gweithdrefnau.<br><br>2. Nodi a chytuno ar y dull arfaethedig o gynnal adolygiad llawn o bolisïau a gweithdrefnau. |
| **Risg / Risk** | Mae polisïau a gweithdrefnau cadarn yn sicrhau llywodraethu da, cydymffurfio â gofynion statudol ac maent yn cadw ein sefydliad yn ddiogel. Maent hefyd yn allweddol i sefydlu dealltwriaeth gyffredin a diwylliant sefydliadol.<br><br>Mae’r penderfyniad hwn yn gysylltiedig â’r risgiau corfforaethol canlynol:<br><br>**Diwylliant sefydliadol** - gallai methu â sefydlu diwylliant cyffredin yn gynnar gael effeithiau mwy hirdymor.<br><br>**Cyllid** - gwariant heb ei gynllunio oherwydd ansicrwydd ynghylch galw, systemau cymeradwyo gwan neu dwyll, gan arwain at gostau sy'n fwy na'r gyllideb.<br><br>**Dull cenedlaethol** - methu ag ymgorffori dull gweithredu cenedlaethol, gan arwain at ddiffyg dealltwriaeth, systemau sydd wedi’u dylunio’n wael, ac aneffeithlonrwydd mewn systemau. |

| | |
|---|---|
| | **Rhwymedigaethau statudol** - Ansicrwydd cwmpas a graddau rhwymedigaethau statudol (hysbys ac anhysbys) yn arwain at fethiant i fodloni rhwymedigaethau cyfreithiol a rheoleiddiol ehangach a/neu ddirwyon neu golledion. |
| **Cyllid / Finance** | Rydym yn cynnig bod y gwaith yn cael ei wneud mewn dau gam:<br><br>- - Disgwylir i gost gam 1 (ceir y manylion isod) fod yn is na'r trothwy ar gyfer cymeradwyaeth y Bwrdd (£25k). Rydym yn amcangyfrif y gellid cwrdd â hyn o gyllid heb ei ddyrannu ar gyfer 2023-2024<br><br>- - Rydym yn rhagweld y bydd angen cam 2 (manylion i'w gweld isod). Byddai angen talu cost y cam hwn o gyllideb 2024-25. Rhagwelwn y bydd cost gam 2 angen cymeradwyaeth y Bwrdd. |
| **Amcan Cynllun Corfforaethol / Corporate Plan Objective** | Blaenoriaeth 07: Bod yn sefydliad uchelgeisiol y gellir ymddiried ynddo yn dda. |
| **Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant / Equity, diversity and inclusion** | Amh |
| **Cyfathrebu / Communications** | Ticiwch un o'r blychau canlynol os bydd y gweithgaredd hwn yn cael effaith ar:<br>**Mewnol:** ein pobl ☒<br>**Allanol:** ein cwsmeriaid/partneriaid/rhanddeiliaid ☒<br>**Allanol:** enw da ein sefydliad ☒ |
| **Cymeradwyaeth / Approval/Clearance** | Prif Weithredwr |
| **Trafodaethau/ Penderfyniadau** | Amh |

| | |
|---|---|
| **Blaenorol / Previous discussions/decisions** | |
| **Awdur/ Cyflwyno / Author/presenting** | Ceri Sullivan – Pennaeth Llywodraethu Dros Dro ac Ysgrifennydd y Bwrdd |
| **Dyddiad / Date** | 16.01.2024 |

**Cefndir / Background**

Yn ystod sefydlu Llais, sefydlodd Llywodraeth Cymru'r Ffrwd Gwaith Llywodraethu a Chyllid i oruchwylio trefniadau llywodraethu a chyllid y corff newydd.

Roedd y ffrwd waith yn cynnwys arweinwyr polisi o bob rhan o Lywodraeth Cymru. Rhan o'u rôl oedd cynghori ar ofynion diwrnod 1 ar gyfer Llais. Roedd hyn yn cynnwys y polisïau a'r gweithdrefnau gofynnol ar gyfer corff cyhoeddus Llywodraeth Cymru.

Crëwyd ein fframwaith llywodraethu a pholisïau a gweithdrefnau cefnogi, sicrhawyd ansawdd gan y ffrwd waith a chymeradwywyd gan ein Bwrdd cyn i Llais ddod yn weithredol. Gwnaethom ymrwymiad i adolygu'r polisïau a'r gweithdrefnau hyn ar ôl blwyddyn o weithredu i benderfynu a oeddent yn addas i'r diben.

Yn ogystal â hyn, trosglwyddwyd nifer o bolisïau a gweithdrefnau o'r cyn Gynghorau Iechyd Cymuned yng Nghymru, y mwyafrif o'r rhain yn ddogfennau GIG Cymru Gyfan. Digwyddodd y trosglwyddiad ar y ddealltwriaeth y byddai Llais yn adolygu a mireinio'r holl ddogfennau ac yn gwneud y newidiadau angenrheidiol i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â diwylliant a statws Llais fel Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru.

Drwy ddysgu oddi wrth Gyrff eraill a Noddir gan Lywodraeth Cymru ac o fod yn weithredol, rydym wedi nodi rhai bylchau yn ein rhestr o bolisïau a gweithdrefnau. Er na chafodd y polisïau a'r gweithdrefnau hyn eu nodi'n flaenorol fel 'hanfodol' ar ddiwrnod 1, maent yn ddogfennau pwysig y teimlwn y dylem eu cael fel corff cyhoeddus.

Drwy ein trafodaethau â chyrff rheoleiddio, rydym wedi dysgu mwy am ein gofynion statudol yn ogystal â disgwyliadau anstatudol cyrff cyhoeddus yng Nghymru. Er ein bod wedi dysgu llawer o'n hymgysylltiad â rhanddeiliaid, nid ydym yn hyderus bod gennym ddealltwriaeth gynhwysfawr o'r disgwyliadau hyn.

Mae gan Llais dros 150 o bolisïau, gweithdrefnau, safonau a dogfennau canllaw.

## Manylion / Detail

Fel sefydliad newydd mae gennym gyfle i lunio ein polisïau a’n gweithdrefnau fel eu bod yn effeithiol, yn effeithlon ac yn cefnogi’r math o ddiwylliant sefydliadol yr ydym yn anelu ato.

Rydym yn cydnabod bod ein harchwilwyr mewnol yn chwarae rhan allweddol wrth bennu effeithiolrwydd ein polisïau, ein gweithdrefnau a’n rheolaethau, mae angen cymorth ychwanegol arnom i adolygu ein hymagwedd ac i nodi unrhyw fylchau cyn gynted â phosibl.

Rydym yn cynnig ein bod yn dechrau ymarfer tendro i gaffael cyflenwr i:

1. Adolygu dogfennau llywodraethu presennol a sicrhau eu bod yn adlewyrchu arfer gorau ac yn briodol yn seiliedig ar y darpariaethau deddfwriaethol a sefydlodd Llais; a chreu proses gyfannol ar gyfer adolygu a chymeradwyo parhaus. Bydd hyn yn cynnwys awgrymiadau ar sut y gallwn gryfhau ein fframwaith llywodraethu a dogfennau ategol.

2. Cynnal dadansoddiad bylchau o bolisïau a gweithdrefnau cyfredol a nodi polisïau allweddol ychwanegol y mae angen eu creu. Byddai hyn yn seiliedig ar arfer gorau a statws Llais fel Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru.

3. Adolygu'r holl bolisïau a gweithdrefnau ac awgrymu newidiadau ac ychwanegiadau i resymoli a symleiddio'r dogfennau hynny. Gall y cam hwn hefyd gynnwys cymorth i ddrafftio gweithdrefnau a pholisïau newydd.

Rydym yn cynnig bod y gwaith hwn yn cael ei wneud mewn dau gam. Byddai Cam 1 yn cynnwys cam 1 a restrir uchod. Rydym yn awgrymu bod cam 1 yn cael ei gario ymlaen yn fuan tra bod y sefydliad yn dal yn gymharol newydd ac y gellir gweithredu unrhyw newidiadau sydd eu hangen heb fawr o darfu.

Byddai Cam 2 yn cynnwys camau gweithredu 2 a 3. Ar hyn o bryd rydym yn recriwtio i nifer o rolau sy'n allweddol i lunio ein polisïau a'n gweithdrefnau. Drwy ohirio cam 2 byddwn yn gallu ailasesu ein gofynion yn erbyn ein capasiti a’n gallu ar yr adeg honno.

Er mwyn cyflawni hyn mewn dau gam bydd angen i ni gynnal dau ymarfer tendro ar wahân.

**Camau i'w cymryd gan y Bwrdd:**

Gofynnir i'r Bwrdd:

1. Nodi'r rhesymeg dros adolygu ein fframwaith llywodraethu sy'n datblygu, a chytuno ar yr angen am gymorth allanol i adolygu ein polisïau a'n gweithdrefnau.

2. Nodi a chytuno ar y dull arfaethedig o gynnal adolygiad llawn o bolisïau a gweithdrefnau.